# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Mawrth 2il 2022 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones (yn ymuno ar ôl cyflwyniad RWE) a'r clerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Bethan Thomas a'r Cyng. Elwyn Edwards.

## i) Cyflwyniad gan RWE Renewables ar gynllun Fferm Wynt Gaerwen.

Cafwyd cyflwyniad gan ddau aelod o dîm RWE Renewables. Dim ond ar gychwyn y broses oeddynt felly doedd dim manylion pendant eto. Roeddynt yn rhagweld y byddai oddeutu 15 tyrbin yn ddibynnol ar eu maint ond yn fwy na rhai Braich Ddu. Doedd dim manylion o'i lleoliad ond mi fyddai angen ffordd mynediad o'r A494. Cafwyd cadarnhad y byddai cronfa ariannol cymunedol yn cael ei chreu. Pwysleisiodd y cynghorwyr bod angen cyfathrebu gyda'r trigolion lleol a chynnal diwrnodau agored i rannu gwybodaeth pan fyddai ar gael. Cytunwyd nad oedd digon o fanylion pendant i'r Cyngor allu ei drafod yn deg a byddai angen clywed barn y trigolion lleol cyn rhoi unrhyw sylwadau.

**ii) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.**

**iii) Datgan Buddiant.**

Nodwyd y buddiant gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol isod.

**iv) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

i) Cyflwr un o'r coed ar y ffordd rhwng yr hen gapel a'r pentref, Glanrafon - roedd y mater wedi cael ei drafod gyda'r tirfeddiannwr.
ii) Canghennau'r coed yn gwyro i'r ffordd ar bont Cletwr - roedd yr Adran Briffyrdd wedi gwneud trefniadau i dorri rhai o'r coed a wedi cysylltu â'r tirfeddiannwr ynglŷn â'r mater hefyd.
iii) Cyflwr y ffordd a oedd yn rhedeg wrth ymyl y maes parcio newydd yn Ysgol Bro Tryweryn - cafwyd cyfarwyddiadau mae'r ysgol ei hun dylai godi'r cwyn gyda'r Adran Eiddo ac mi roedd y brifathrawes wedi gwneud hyn ar ein rhan.
iv) Cais am ddiweddariad ynglŷn â'r cwynion am y llwybrau troed yng Nghefnddwysarn - mi roedd y swyddog wedi cael addewid gan y tirfeddiannwr y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan.

b) Mynwentydd.

Cafwyd cadarnhad fod y llanast wedi cael ei glirio o fynwent Llandderfel, diolchwyd i Eilir Rowlands a Dewi Pritchard am eu gwaith. Mi roedd y clerc ag Eilir Rowlands wedi bod yn ceisio ffeindio'r safle gore i osod yr arwydd newydd i'r fynwent yn Llandderfel ond bu rhaid ail gysylltu â Chyngor Gwynedd am wybodaeth ynglŷn â lleoliad unrhyw gysylltiadau trydan dan ddaear.

c) Cae chwarae Frongoch.

Cytunwyd i arwyddo'r les gyda phwyllgor y cae chwarae.

ch) Adroddiad Blynyddol.

Trafodwyd yr eitemau i gynnwys yn yr adroddiad ac amcanion y cyngor ar gyfer 2022/23.

**v) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro, B4402 Llandderfel, 23/03/22.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

ii) Arolwg llwybrau Cymuned Llandderfel - cytunwyd i gydweithio gydag Adran Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd i geisio am grantiau i ariannu'r arolwg.
iii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.

b) Amrywiol.
i) Dŵr Cymru – Dogfen cyn-ymgynghori ar gyfer Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft Dŵr Cymru 2024.
ii) Cyfoeth Naturiol Cymru – Cod Cefn Gwlad newydd.
iii) Triathlon Y Bala – diweddariad.
iv) Ymholiad gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag bodolaeth hen annedd yn Llandderfel.
v) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y cydnabyddiaeth dewisol a cytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw cyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb pan yn mynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y cydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad sylfaenol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

**vi) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:-
C22/0003/04/LL - Penrallt, Cwm Main. Lleoli 3 o fodiau gwyliau cynhaliol - gwrthwynebwyd oherwydd pryder y cynghorwyr ynglŷn â'r cynnydd o drafnidiaeth ar y ffordd gul, fod y safle parcio ddim yn ddigonol i'r cerbydau ychwanegol a bod y datblygiad mewn ardal o harddwch naturiol.
C22/0056/04/LL – Trosi y rhan diwydiant ysgafn o'r adeilad i ffurfio ystafelloedd ychwanegol i'r annedd. Glanrafon Hall, Glanyrafon – dim gwrthwynebiad.
NP5/72/250A – Cais cwmpasu Llyn Celyn – dim gwrthwynebiad.

**vii) Materion Ariannol.**

a) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

b) Archwilio Cymru – Cylch Ffioedd 2022-23.
Nodwyd y drefn newydd a'r ffioedd perthnasol.

c) Gwaith torri glaswellt y mynwentydd.
Trafodwyd yr unig bris a dderbyniwyd a chytunwyd i rôi'r gwaith i Gwmni Ciltalgarth.

ch) Taliadau
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth).
2) CTHEM (TWE).
3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth).
4) Neuadd Bro Derfel (llogi).
5) Neuadd Mynach (llogi).
6) MPH Construction (pad concrit lloches bws Frongoch).

Cymeradwywyd i dalu am y lloches bws i Frongoch, Deiniol Davies (gwaith ym mynwent Frongoch) a Paul Addlington (trwsio giatiau mynwent Llandderfel) pan fyddai'r clerc yn derbyn yr anfonebau a'r cynghorwyr yn hapus gyda'r gwaith.

d) Ceisiadau Ariannol.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod eleni wedi bod yn flwyddyn heriol iawn eto i fudiadau ac elusennau gan nad oedd modd iddynt gynnal eu gweithgareddau arferol i gasglu arian i'w cynnal.
Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-



Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..

1) Neuadd Mynach - £450
2) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
3) Neuadd Llandderfel - £450
4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
5) Ysgol Ffridd y Llyn - £250
6) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn - £100.00
7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
8) Cylch Meithrin Maesywaen - £100
9) Hosbis Tŷ'r Eos - £100
10) CFFI Meirionnydd - £200
11) Cantref - £100
12) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100 (i'w dalu pan fyddant wedi diweddaru eu cyfrif banc)
13) Ambiwlans Awyr Cymru -£100
14) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
15) Marie Curie Gwynedd - £100

**viii) Materion lleol.**

a) Llifogydd ym mhentref Llandderfel.

Roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd ynglŷn â glanhau gwely'r afon a chodi'r bont sy'n croesi i gyfeiriad y Neuadd. Ategodd y cynghorwyr lleol fod angen clirio ochrau'n ffyrdd a'r gwteri gan fod y dŵr yn llifo lawr ffyrdd y pentref hefyd.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Gwrych wedi gordyfu i mewn i'r ffordd rhwng y parc chwarae a'r pentref yn Llandderfel.
ii) Sbwriel ar ochr yr A494 o Lanrafon i Bala ac yng nghei Llyn Celyn.
iii) Y clerc i ail gysylltu â Chlwb Carafanau a Gwersylla, Crynierth, Cefnddwysarn ynglyn a'r coed ger eu mynedfa.
iv) Baw adar ar balmentydd stryd fawr Y Bala.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 24ain am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..